Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru | Museums Federation Cymru

# Y Mag









Helo a chroeso!

Yn y rhifyn mis Mai hwn o'r Mag, rydym yn cael golwg ar y trysorau cyfareddol a ddaeth i law amgueddfeydd yn Sir Ddinbych, Sir Gaerfyrddin, a Sir y Fflint yn ddiweddar. Mae'r prosiectau hyn wedi derbyn nawdd drwy'r Grant Caffael, a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac a weinyddir gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru i gynorthwyo'r sefydliadau i gyflawni'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant.

Hefyd cewch wybod hynt a helynt gwirfoddolwyr y Ganolfan Eifftaidd ar eu taith i Amgueddfa Sir Gaerfyrddin.

Mae llawer i'w gynnig yng Nghymru a hyd yn oed mwy i'w ddysgu oddi wrth ein gilydd!

## Beth sy'n Newydd


- Caffael Darnau Arian Ôl-ganoloesol: Trysor Llangynhafal
- Celc o'r Oes Efydd Hwyr i'r Oes Haearn Gynharaf o Gymuned Llandegla, Sir Ddinbych (23.43)
- Modrwy Aur Posy Ôl-ganoloesol: Trysor Rhuthun (22.08)
- Caffael Helfa Palstafau o'r Oes Efydd Ganol Llanddeusant (Trysorfa 23.35 )
- Caffael Helfa o'r Oes Efydd Hwyr Llanddeusant (Trysorfa 23.36)
- Caffael Darnau Arian Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Llanddeusant
- Caffael Darnau Arian Rhufeinig, Gwella (Llyfrgelloedd a Gwasanaeth Hamdden Sir y Fflint)
- Cyrchfan Abergwili: Taith y Ganolfan Eifftaidd i Amgueddfa Sir Gaerfyrddin

# Caffael Darnau Arian Ôl-ganoloesol: Trysor Llangynhafal

Yn 2021–2023, darganfuwyd grŵp o un ar ddeg o ddarnau arian ôl-ganoloesol yn Llangynhafal, Sir Ddinbych, a'u hadrodd o dan Deddf Trysorau 1996. Cafwyd hyd i'r darnau arian, sy'n dyddio o 1553–1636 ac sy'n cynnwys darnau grot Mary I, Philip a Mary, Elisabeth I, a darn ugain ceiniog yr Alban Siarl I, gan synhwyrydd metel Robert Barratt, a'u dyddio drwy'r Cynllun Henebion Cludadwy. Roedd Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Ddinbych wedi mynegi diddordeb mewn caffael y celc i gyfoethogi ei gasgliad, a dehongli'r defnydd hanesyddol o wnaed o arian yn y rhanbarth. Diolch i Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru rydym wedi gallu gwneud cais am gyllid er mwyn prynu'r grŵp hwn o ddarnau arian.

Ar ôl prynu'r darnau arian, bwriad Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Ddinbych yw cyfuno'r celc o ddarnau arian Llangynhafal â'r casgliad parhaol, gan sicrhau bod y darnau arian yn cael eu gwarchod, eu catalogio a'u harddangos yn briodol ynghyd â deunydd esboniadol. Bydd hyn yn gyfle addysgol i ymwelwyr archwilio'r hanes ariannol ôl-ganoloesol, arferion cymdeithasol, a chysylltiadau'r rhanbarth â darnau arian cenedlaethol a'r Alban. Mae'r prosiect wedi dylanwadu ar arferion curadurol drwy bwysleisio pa mor bwysig yw gwaith dogfennu manwl, ymgysylltu'n agos â'r darganfyddwyr, a phwysigrwydd dilyn fframwaith y Ddeddf Trysorau. Ymhlith y cynlluniau ar gyfer y dyfodol mae gwaith ymchwil o gymharu â chelciau rhanbarthol eraill, datblygu astudiaethau achos ar gyfer ysgolion, a'r posibiliadau o roi'r casgliad ar fenthyg dros dro i sefydliadau partner. Gall dysgu pellach ganolbwyntio ar gofnodi'r darganfyddiadau yn ddigidol, a dulliau rhyngweithiol o arddangos, yn ogystal â strategaethau ar fesurau gwell o ymgysylltu â'r cyhoedd i amlygu arwyddocâd gwrthrychau hanesyddol bob dydd.

Mae'r caffael hwn wedi amlygu'r modd y gall celciau bach o ddarnau arian treuliedig ddatgelu agweddau ar fywyd pob-dydd, patrymau cylchrediad yr arian, ac arferion ariannol yn y cyfnod ôl-ganoloesol. Roedd darganfod darnau arian â thyllau ynddynt wedi ysgogi trafodaeth ar y defnydd deuol o wnaed o'r arian fel arian talu dyled ac fel addurn personol, gan ddatgelu aml-swyddogaeth y gwrthrychau pob-dydd. At ei gilydd, roedd y caffael wedi ategu arferion gorau o ran trin gwrthrychau, casglu gwrthrychau yn foesegol, a chynllunio deunydd esboniadol, gan gyfrannu at ddatblygiad proffesiynol person a sefydliad.

Mae'r cynllun Grant Caffael yn bosibl diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Is-adran Diwylliant, a chymorth ariannol gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru.



Delwedd: Darnau arian ôl-ganoloesol o Langynhafal

# Celc o'r Oes Efydd Hwyr i'r Oes Haearn Gynharaf o Gymuned Llandegla, Sir Ddinbych (23.43)

Fis Awst 2023, darganfuwyd celc yn cynnwys dwy gŷn efydd seidiog, a phin pen cylch gan synhwyrydd metel yn Llandegla, Sir Ddinbych. Mae'r ddwy gŷn, un yn gyflawn ac un seidiog wedi torri, a'r pin pen cylch efydd yn dyddio o'r Oes Efydd Ddiweddar i'r Oes Haearn Gynharaf (tua 900–600 CC). Wedi'u canfod mewn ucheldir creigiog a thir âr gerllaw, adroddwyd y gwrthrychau o dan Ddeddf Trysorau 1996 a'u prosesu drwy PAS Cymru ac Amgueddfa ac Archifau Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Roedd Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Ddinbych wedi mynegi diddordeb mewn caffael y celc i ychwanegu at ei gasgliad o arteffactau cyn-hanes a chynnig cyfleoedd i ddehongli hanes cynnar y rhanbarth. Diolch i Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru, gwnaed cais llwyddiannus am gyllid i brynu a chadw'r celc hwn.

Yn dilyn prynu'r ddwy gŷn, bwriad Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Ddinbych yw gwarchod, catalogio a gwneud celc Llandegla yn hygyrch i hwyluso gallu ymgysylltu â'r cyhoedd a gwneud gwaith ymchwil. Bydd y gwrthrychau yn cael eu dehongli i archwilio crefftwaith yn y cyfnod cyn-hanes, y defnydd a wnaed o offer, ac arferion defodol yng Nghymru yn yr Oes Efydd a'r Oes Haearn. Mae'r caffaeliad wedi cryfhau'r arferion curadurol drwy amlygu pwysigrwydd asesu'r cyd-destun yn ofalus, y gwaith dogfennu, a chydweithio ag arbenigwyr mewn arteffactau cyn-hanes. Ymhlith y camau yn y dyfodol fydd gwaith ymchwil i gymharu â chelciau tebyg, datblygu deunydd addysgol i ysgolion, a gwella'r gwaith o gofnodi'r deunydd yn ddigidol a'i wneud yn fwy hygyrch. Hefyd mae'r caffaeliad wedi annog mwy o archwilio cyd-destun y dirwedd, gan gynnwys swyddogaeth afonydd, safleoedd ucheldir, a henebion cyn-hanes o ran dyddodi arteffactau. Mae'r dulliau hyn yn sicrhau arferion gorau o ran caffael, dehongli a lledaenu darganfyddiadau cyn-hanes cynnar.

Roedd prynu celc Llandegla wedi pwysleisio pa mor bwysig yw cofnodi manwl, dadansoddi'r cyd-destun, a chael mewnbwn arbenigol wrth reoli darganfyddiadau cyn-hanes. Roedd y cysylltiad rhwng y ddwy gŷn efydd seidiog a'r pin pen cylch wedi rhoi golwg o'r newydd ar ddyddodi offer ac arteffactau personol yn ystod yr Oes Efydd Ddiweddar i'r Oes Haearn Gynharaf, gan amlygu swyddogaethau ymarferol a defodol o bosibl. Mae'r celc yn dangos y gorgyffwrdd cronolegol rhwng arteffactau, yr amrywiad yn ffurf y gwrthrychau, a phwysigrwydd topograffeg y safle o ran dyddodion. Roedd cydweithio â PAS Cymru a chyfeirio at gelciau eraill ar hyd a lled Prydain ac Iwerddon wedi atgyfnerthu gwerth gwaith ymchwil ar gymharu o ran deall casgliadau o'r cyfnod cyn-hanes. Hefyd roedd y caffaeliad wedi tynnu sylw at gyfleoedd i wella'r gwaith o gynllunio gwaith dehongli, strategaethau cadwraeth, ac allgymorth addysgol, gan ddangos y potensial i gelciau bach gyfrannu'n sylweddol at ddeall cymdeithasau cyn-hanes.

Mae'r cynllun Grant Caffael yn bosibl diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Is-adran Ddiwylliant, a chymorth ariannol gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru.

# Modrwy Aur Posy Ôl-ganoloesol: Trysor Rhuthun 22.08

Fis Ionawr 2022, darganfuwyd modrwy aur ac enamel ôl-ganoloesol gan synhwyrydd metel mewn cae pori yn Rhuthun, Sir Ddinbych. Mae'r fodrwy yn cynnwys cylch D gwastad wedi'i addurno â motiffau pedairdalen blodeuog ailadroddus wedi'u mewnosod ag enamel du, a'r arwyddair "If worthy none So happy" yn arysgrifen ar y tu fewn. Yn dyddio o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg neu'r ail ganrif ar bymtheg, mae'r gwrthrych yn rhoi cipolwg gwerthfawr i ni o addurn personol, crefftwaith a mynegiant cymdeithasol yn ystod y cyfnod ôl-ganoloesol. Roedd Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Ddinbych wedi mynegi diddordeb mewn prynu'r fodrwy, a adroddwyd ac a broseswyd o dan Ddeddf Trysorau 1996, gyda chymorth PAS Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Gwnaed cais am gymorth ariannol drwy Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru, a bu'r cais yn llwyddiannus.

Yn dilyn y prynu, bwriad Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Ddinbych yw gwarchod, catalogio ac arddangos modrwy 'posy' Rhuthun, gan ei gwneud yn hygyrch i'r cyhoedd ac i ymchwilwyr. Bydd y gwrthrych yn cael ei ymgorffori yn y deunydd dehongli ar y gemwaith personol, yr arferion cymdeithasol, a'r grefftwaith rhanbarthol ôl-ganoloesol. Mae'r prosiect wedi dylanwadu ar arferion curadurol drwy bwysleisio ymchwilio'r tarddiad yn ofalus, asesu'r cyflwr, a chadw at y fframweithiau cyfreithiol a moesegol. Wrth symud ymlaen, byddwn yn archwilio gwrthrychau tebyg mewn casgliadau rhanbarthol, yn datblygu astudiaethau achos addysgol ar gyfer ysgolion, ac yn gwella cofnodi yn ddigidol i ategu gwaith ymchwil ac ymgysylltu. Gallai dysgu pellach ganolbwyntio ar dechnegau enamel, dadansoddi arysgrifen, ac astudiaethau ar gymharu modrwyau 'posy' yn genedlaethol.

Mae'r fodrwy yn helpu i atgyfnerthu arwyddocâd gwrthrychau bach sy'n dangos arferion hanesyddol, mynegiant personol, a chrefftwaith ôl-ganoloesol. Gan weithio'n agos gyda PAS Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, pwysleisiwyd pa mor bwysig yw cyfathrebu clir, adrodd yn briodol, a dilyn Deddf Trysorau 1996. Hefyd roedd y profiad wedi tynnu sylw at ddulliau newydd o arferion curadurol, gan gynnwys cydbwyso'r anghenion cadwraeth ag ymgysylltu â'r cyhoedd a dehongli, a gwerth creu cofnodion digidol i hwyluso hygyrchedd a gwaith ymchwil. At ei gilydd, roedd y prosiect wedi cryfhau dealltwriaeth o'r diwylliant deunydd ôl-ganoloesol, yn ddatblygiad proffesiynol mewn gweithdrefnau caffael, a chynnig cyfleoedd i wella dehongli ar gyfer y cyhoedd a'r cynulleidfaoedd addysgol.



Delwedd: Modrwy bys aur ôl-ganoloesol.

# Caffael Helfa Palstafau o'r Oes Efydd Ganol Llanddeusant (Trysorfa 23.35)

Llwyddodd Amgueddfa Sir Gaerfyrddin i gaffael celc o bump palstaf efydd o'r Oes Efydd Ganol a ddarganfuwyd yng nghymuned Llanddeusant fis Gorffennaf 2023, ac a adroddwyd i'r Cynllun Henebion Cludadwy. Mae'r celc yn cynnwys enghreifftiau amrywiol o balstafau Fflang Isel Grŵp III sy'n dyddio o gyfnod gwaith metel Taunton/ Cemaes (1400–1275 CC). Mae'r celc yn gwella casgliad archaeoleg yr amgueddfa ac yn cyfrannu at ddealltwriaeth ranbarthol o weithgarwch cyn-hanes. Mae'r caffaeliad hwn yn cyd-fynd â pholisi'r amgueddfa ar y Trysorau a'r henebion cludadwy a ddarganfyddir yn Sir Gaerfyrddin.

Roedd y broses gaffael wedi tynnu sylw at y bartneriaeth gref rhwng Amgueddfa Sir Gaerfyrddin, y Cynllun Henebion Cludadwy, ac Amgueddfa Cymru. Roedd y gwaith cadwraeth gan yr Uwch Gadwraethwr Archaeolegol Louise Mumford wedi sicrhau bod yr arwynebau bregus yn cael eu sefydlogi drwy ddefnyddio resin Incralac. Mae cyfansoddiad y celc - sy'n cynrychioli sawl math o balstaf gan gynnwys Sleaford, Carleton, a Harlech - yn dangos ystod brin ac arwyddocaol yn academaidd o ran de-orllewin Cymru. Roedd storio diogel a rheolaethau amgylcheddol priodol (gan gynnal lleithder cymharol islaw 40%) yn ganolog i sicrhau gofal hirdymor. Roedd y broses wedi cadarnhau pa mor bwysig yw'r llwybrau adrodd am y Trysorau o ran sicrhau casglu trysorau yn gyfrifol.


Bydd yr amgueddfa yn awr yn catalogio, tynnu ffotograff, ac ychwanegu pob trysor at ei gasgliad archaeoleg. Bydd y gwrthrychau hyn yn cael eu paratoi i'w harddangos yn yr Oriel Ddarganfod newydd, lle bydd y caffaeliadau Trysorau yn ddiweddar yn helpu i roi cyd-destun i weithgarwch cyn-hanes yn Sir Gaerfyrddin. Mae eu ffurfiau amrywiol yn cynnig y posibiliadau rhagorol i ddehongli a thrafod traddodiadau gwaith metel yr Oes Efydd, y gwahaniaethau mewn gweithgynhyrchu yn y gwahanol ranbarthau, ac arferion dyddodi mewn defodau. Bydd gwaith ymchwil pellach yn cael ei wneud i gymharu'r celc â chelc arall o'r Oes Efydd Ddiweddar o Landdeusant sydd eisoes yn y casgliad, gan archwilio'r posibilrwydd o barhad yn yr arferion dyddodi.

Roedd y caffaeliad hwn wedi atgyfnerthu pa mor bwysig yw perthnasoedd gwaith cadarn gyda'r Cynllun Henebion Cludadwy ac Amgueddfa Cymru. Roedd y cysylltu cynnar wedi sicrhau bod y celc wedi'i adrodd, ei warchod, a'i storio'n ddiogel yn ystod y gwerthuso. Roedd monitro'r gofynion cadwraeth a'r amodau storio wedi rhoi mewnwelediad gwerthfawr i'r risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gwrthrychau aloi copr o'r Oes Efydd, gan gynnwys naddion arwyneb a chyrydu.

Roedd y caffaeliad hwn wedi atgyfnerthu pa mor bwysig yw perthnasoedd gwaith cadarn gyda'r Cynllun Henebion Cludadwy ac Amgueddfa Cymru. Roedd y cysylltu cynnar wedi sicrhau bod y celc wedi'i adrodd, ei warchod, a'i storio'n ddiogel yn ystod y gwerthuso. Roedd monitro'r gofynion cadwraeth a'r amodau storio wedi rhoi mewnwelediad gwerthfawr i'r risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gwrthrychau aloi copr o'r Oes Efydd, gan gynnwys naddion arwyneb a chyrydu.

Yn weinyddol, roedd y caffaeliad wedi cadarnhau pa mor bwysig yw cynnal Polisïau Datblygu Casgliadau yn gyfredol a'u dogfennu yn glir i sicrhau eu bod yn gymwys i gael cymorth grant. Mae'r profiad wedi cryfhau'r prosesau mewnol sy'n ymwneud â chaffael Trysorau, gwerthuso a gwneud cais am grant.

Mae'r cynllun Grant Caffael yn bosibl diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Is-adran Ddiwylliant, a chymorth ariannol gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru.



Delwedd: Y pum pen bwyell o'r Oes Efydd a ddarganfuwyd ger Llanddeusant.

# Caffael Helfa o'r Oes Efydd Hwyr Llanddeusant (Trysorfa 23.36)

Mae Amgueddfa Sir Gaerfyrddin wedi caffael celc o ddiwedd yr Oes Efydd o gymuned Llanddeusant, sy'n cynnwys bwyell soced asennog gyflawn a darn o ail fwyell soced wedi'i lletemio yn ei soced. Wedi'u darganfod yn ystod rali chwilio â datgelydd metel fis Gorffennaf 2023 ac wedi'i adrodd drwy'r Cynllun Henebion Cludadwy, prynwyd y celc drwy Grant Caffael Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru. Mae ei ddull dyddodi nodedig yn ei wneud yn arwyddocaol ar gyfer astudiaeth academaidd ac arddangosfeydd yn y dyfodol, gan wella casgliad archaeoleg yr amgueddfa a chyfrannu at ddealltwriaeth o weithgarwch lleol o ddiwedd yr Oes Efydd.

Mae'r celc yn cynnwys bwyell socedog asenog Math/Dosbarth B4 Breiddin a darn o fwyell socedog blaen a main. Mae taro darnau'n rymus i socedi gwrthrychau cyflawn yn arfer hysbys o'r Oes Efydd Ddiweddar a welir ledled Cymru. Mae'r celc hwn yn cyd-fynd â darganfyddiadau eraill o Landdeusant, gan awgrymu dyddodiad defodol dros gyfnod maith yn yr ardal. Mae'r caffaeliad yn ategu blaenoriaethau casglu yr amgueddfeydd, yn cyflawni cylch gwaith y Ddeddf Trysorau, ac yn cyfoethogi'r cofnod archaeolegol. Mae cyflwr y celc a'i nodweddion diagnostig yn ei wneud yn addas ar gyfer arddangosfa a gwaith ymchwil.

Bydd yr amgueddfa yn derbyn, yn dogfennu ac yn storio'r celc yn ddiogel o fewn y casgliadau archaeoleg, gan sicrhau gofal priodol hirdymor. Mae'r cynlluniau yn cynnwys ymgorffori'r eitemau yn yr arddangosfeydd yn yr Oriel Ddarganfod newydd, yn enwedig o fewn yr adrannau sy'n archwilio darganfyddiadau Trysorau yn ddiweddar a diwylliant materol yr Oes Efydd. Bydd gwaith ymchwil pellach yn cael ei wneud i roi cyd-destun i'r celc ochr yn ochr â dau gelc arall o'r Oes Efydd Ddiweddar a ddarganfuwyd yn flaenorol yn ardal Llanddeusant. Bydd y canfyddiadau yn cael eu rhannu â phartneriaid academaidd a drwy'r mentrau ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys adrodd straeon digidol a dehongli sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Roedd y broses gaffael wedi tynnu sylw at werth partneriaeth agos â'r Cynllun Henebion Cludadwy, ac at bwysigrwydd dogfennu amserol pan adroddir am achosion o ddarganfod Trysor. Roedd adolygu'r celc wedi atgyfnerthu dealltwriaeth o ymddygiadau dyddodi yr Oes Efydd Ddiweddar, yn enwedig yr arfer o fewnosod darnau â grym i socedi bwyeill cyflawn. Mae'r ffenomen hon, a welir ar safleoedd eraill yng Nghymru gan gynnwys Porthsgiwed a'r Bont-faen, yn rhoi cipolwg i ni o ymddygiadau defodol neu symbolaidd mewn cymunedau cyn-hanes.

Hefyd roedd yr achos wedi dangos pa mor berthnasol oedd Polisi Caffael yr amgueddfa, gan gadarnhau bod yr amgueddfa mewn sefyllfa dda i warchod a dehongli'r math hwn o ddarganfyddiadau. Ymhlith y gwersi ymarferol oedd y fantais o gael gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer gwerthuso cyflwr, y gofynion storio, a'r potensial arddangos cyn caffael. Roedd yr achos hwn yn tanlinellu pa mor bwysig yw dehongli archaeolegol yn seiliedig ar le, ac yn atgyfnerthu ymrwymiad yr amgueddfa i gasglu eitemau sy'n cyfrannu at naratif ehangach gorffennol cyn-hanes Sir Gaerfyrddin.

Mae'r cynllun Grant Caffael yn bosibl diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Is-adran Diwylliant, a chymorth ariannol gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru.





Delweddau: Y ddau ben bwyell o'r Oes Efydd un wedi'i orfodi i agoriad y llall.

# Caffael Darnau Arian Canoloesol ac Ôl-ganoloesol Llanddeusant

Cafodd Amgueddfa Sir Gaerfyrddin dri darn arian a wnaed o arian o'r cyfnod canoloesol i'r ôl-ganoloesol o Landdeusant (Trysorfa 22.34). Darganfuwyd y darnau arian - grot Edward IV, hanner grot Harri VII, a phetard ddwbl Bwrgwynaidd - yn ystod rali chwilio â datgelydd metel fis Ebrill 2022 a'u hadrodd i'r Cynllun Henebion Cludadwy. Mae eu cyflwr da a'u perthnasedd i'r hanes rhanbarthol yn eu gwneud yn ychwanegiadau arwyddocaol i'r casgliad.

Mae'r caffaeliad yn ymwneud â nwmismateg canoloesol ac ôl-ganoloesol, gan amlygu'r masnach, cynghreiriau ariannol, a'r cysylltiadau gwleidyddol traws-Sianel yn ystod teyrnasiad Edward IV, Harri VII, a Siarl y Beiddgar. Mae'r cysyniadau allweddol yn cynnwys cylchrediad darnau arian Bwrgwyn yng Nghymru, prosesau'r Ddeddf Trysorau, ac asesiad o arwyddocâd drwy ddefnyddio safonau amgueddfeydd Cymru.

Bydd y darnau arian yn cael eu derbyn, eu ffotograffio, a'u cofnodi yng nghronfa ddata casgliadau'r amgueddfa. Byddant yn cael eu storio'n briodol yn y storfa archaeoleg a'u hystyried i'w harddangos yn yr Oriel Ddarganfod neu mewn arddangosfa o Drysorau yn y dyfodol. Mae'r caffaeliad hwn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i gasglu'r henebion cludadwy a ddarganfuwyd yn lleol. Bydd y dysgu pellach yn cynnwys adolygu data PAS lleol a chyfuno'r caffaeliad hwn yn y gwaith o gynllunio ymgysylltu â'r cymunedau.

Roedd y caffaeliad hwn wedi datgelu bod bylchau yng nghasgliadau canoloesol yr amgueddfa, yn enwedig o ran darnau arian Bwrgwyn, sy'n dangos cysylltiadau gwleidyddol a masnachol rhyngwladol. Hefyd roedd yn amlygu pwysigrwydd parhaus y Cynllun Henebion Cludadwy o ran ehangu gwybodaeth archaeolegol ranbarthol. Mae'r darganfyddiad yn gwella dealltwriaeth o arwyddocâd hirdymor Llanddeusant, gan ategu celc o'r Oes Efydd Ddiweddar sydd hefyd yn rhan o gasgliadau'r amgueddfa. Roedd y broses wedi cadarnhau llif gwaith effeithiol Trysorau, gan gynnwys gwerthuso, asesu arwyddocâd, a chyflwr y trysor wrth wneud penderfyniadau caffael.

Mae'r cynllun Grant Caffael yn bosibl diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Is-adran Ddiwylliant, a chymorth ariannol gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru.



Tri darn arian Llanddeusant

# Caffael Darnau Arian Rhufeinig, Gwella (Llyfrgelloedd a Gwasanaeth Hamdden Sir y Fflint)

Prynu celc o 13 denarii arian a ddarganfuwyd wrth chwilio â datgelydd metel yn Helygain, Sir y Fflint fis Mehefin 2020. Cymru 20:08. Datganwyd yn Drysor gan Grwner Cynorthwyol Gogledd Cymru 28 Mehefin 2022.

Rydym wrthi yn cynllunio arddangosfa dros dro newydd ar thema Mwyngloddio yn Helygain. Yn ddiweddar, rydym wedi bod yn gweithio gyda Chlwb Ogofa Grosvenor ar wrthrychau a achubwyd o Dwnnel y Milwr. Mae gennym ddwy injan o fewn casgliad Cyngor Sir y Fflint a ddefnyddiwyd yn y pwll glo. Bydd yr arddangosfa yn edrych ar yr ardal o gwmpas Helygain o'r cyfnod cyn-hanes hyd at yr 20fed Ganrif. Bydd y casgliad o ddarnau arian yn ganolog i'r arddangosfa. Bydd yr arddangosfa yn teithio ar draws amgueddfeydd Sir y Fflint gan ddechrau fis Ebrill 2026 yn Nyffryn Maes-glas cyn symud i'r Wyddgrug, Bwcle a Chei Connah. Bydd ein gwirfoddolwyr rheilffordd hanesyddol ym Maes-glas yn datblygu'r arddangosfa gyda chymorth y tîm curadurol. Bydd y paneli arddangos yn cael eu hariannu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Mae parhad y Gronfa Gaffael yn hanfodol er mwyn galluogi amgueddfeydd i brynu "eitemau trysor". Heb gyllid allanol, ni fyddem yn gallu prynu hyd yn oed yr eitemau lleiaf un. Nid oes gan ein cyllidebau unrhyw arian wedi'i neilltuo ar gyfer prynu eitemau. Mae'n anffodus y gall Darganfyddiadau Trysor gymryd 2 flynedd i weithio eu ffordd drwy'r system – byddai'n wych neilltuo arian yn ystod y cam Datganiad o Ddiddordeb.

Mae'r cynllun Grant Caffael yn bosibl diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Is-adran Ddiwylliant, a chymorth ariannol gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru.





Delweddau: darnau arian Rhufeinig – 13 denarii arian.

# Cyrchfan Abergwili: Taith y Ganolfan Eifftaidd i Amgueddfa Sir Gaerfyrddin

Dydd Sadwrn 22 Tachwedd 2025, aeth Gwirfoddolwyr (a myfyrwyr) y Ganolfan Eifftaidd ar drip i Amgueddfa Sir Gaerfyrddin* yn Abergwili, milltir neu ddwy y tu allan i Gaerfyrddin. Bwriad y daith oedd cael cyfle i ymweld â'u harddangosfa gyfredol ar Harold Jones, Eifftolegydd a Darlunydd Archaeolegol, oedd yn hanu o Gaerfyrddin.

Mae arddangosfa Harold Jones yn cynnwys arteffactau a roddwyd gan Harold, ac yn ddiweddarach ei deulu, i sawl amgueddfa yng Nghymru, gan gynnwys y Ganolfan Eifftaidd ac Amgueddfa Abertawe. Casglwyd yr arteffactau hyn yn ystod ei waith maes gyda'r sêr Eifftolegol megis John Garstang a Theodore Davis. Roedd cyflwr y gwrthrychau, gan gynnwys shabtis a drych efydd ysblennydd, yn eithriadol. Mae'r arddangosfa hefyd yn cynnwys paentiadau Harold o olygfeydd o feddau y bu'n gweithio arnynt, yn ogystal â gweithgareddau cynhwysol megis mymïo, tebyg i'r rhai a ddarparwn yn y Ganolfan Eifftaidd. Gofynnodd rhai gwirfoddolwyr pa wrthrychau yn y casgliad oedd ar fenthyg o'r Ganolfan Eifftaidd, a methodd y rhan fwyaf ohonynt â dod o hyd iddynt! (A bod yn deg, nid ydynt fel arfer ar ddangos yn y Ganolfan Eifftaidd). Yr eitemau dan sylw yw P1, sef dyfrlliw o Beni Hasan yn yr Aifft gan Harold, a P2 dyfrlliw o'r enw 'Machlud Cymylog' hefyd gan Harold.

Heblaw am yr arddangosfa, roedd y rhai oedd yn bresennol wedi mwynhau'r cyfle i archwilio casgliadau ac arddangosfeydd eraill yr amgueddfa, a chymryd rhan mewn gweithgareddau cyhoeddus megis cerdded llwybrau, gwisgo i fyny, ac ati.

Y prif atyniad arall ar y diwrnod oedd y cyfle i glywed Curadur y Ganolfan Eifftaidd, Dr Ken Griffin, yn siarad am gasgliadau Eifftolegol Cymru. Dan y teitl 'O'r Tywy i'r Tawe: Casgliadau Eifftolegol Cymru, daeth y sgwrs â'i ymchwil yn fyw ar y llefydd lle gellir gweld arteffactau Eifftaidd o fewn amgueddfeydd Cymru a'u siopau, ac yn gipolwg diddorol ar deithiau'r arteffactau hyn a'r modd y daeth eu siwrnai i ben yng Nghymru.

Am rodd fach yn siop yr amgueddfa, llwyddom i gael gafael ar A Son to Luxor's Sand, catalog arddangosfa Harold Jones ym 1986 yn Amgueddfa Sir Gaerfyrddin. Ychwanegiad teilwng at unrhyw gasgliad llyfrau Eifftolegol, a chyfle a dderbyniwyd yn eiddgar gan y gwirfoddolwyr a'r myfyrwyr ar y daith.

Yn dilyn bore ardderchog llawn gwybodaeth yn yr amgueddfa, roedd y prynhawn yn cynnwys amser rhydd yng nghanol tref Caerfyrddin.

Ymwelodd nifer â thŷ Harold Jones ar Heol y Cei, yr adeilad sydd â phlac glas o Amgueddfa Caerfyrddin. Roedd yn gartref sylweddol, a diddorol oedd dychmygu sut olwg fyddai wedi bod arno yn ystod cyfnod Harold. Ymwelodd sawl un arall hefyd â Chastell Caerfyrddin a safleoedd treftadaeth eraill (a siopau!).

Diddorol wrth grwydro Caerfyrddin oedd gweld y nifer sylweddol o blaciau glas yn y dref, yn tynnu sylw at ei hanes a'r unigolion nodedig sydd wedi galw'r dref yn gartref dros y canrifoedd. Ar y cyfan, roedd yn ddiwrnod ardderchog ac addysgiadol ac yn gyfle gwych i greu cysylltiadau agosach rhwng y Ganolfan Eifftaidd ac Amgueddfa Sir Gaerfyrddin, yn ogystal â galluogi'r rhai nad oeddent wedi cael y cyfle o'r blaen i ymweld â'r amgueddfa a dysgu mwy am waddol Harold Jones.

Diolch i Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru am roi'r cyllid ar gyfer y daith ac i Amgueddfa Sir Gaerfyrddin am ein croesawu.
Syd Howells, Rheolwr Gwirfoddolwyr yr Amgueddfa
Delweddau o wirfoddolwyr yn Amgueddfa Sir Gaerfyrddin.









Delweddau: Gwirfoddolwyr Canolfan yr Eifftiaid yn Amgueddfa Sir Caerfyrddin.